

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Vaughan Gething AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd

17 Mehefin 2015

Annwyl Vaughan,

Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau

Diolch am roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau ddydd Iau 11 Mehefin 2015.

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- nodyn yn manylu ar yr allbynnau a'r canlyniadau penodol a fydd yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i fesur effeithiolrwydd (yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau, a newid ymddygiad pobl) y cyllid o £50 miliwn a gyhoeddwyd i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a sylweddau yn ystod y flwyddyn nesaf; a chopi o'r ymchwil a wnaed gan Brifysgol Sheffield i effaith isafswm pris unedau alcohol yng Nghymru.

Ar y themâu penodol isod, byddai Aelodau hefyd yn croesawu:

Y Cynllun Mentora Cymheiriaid

- y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i olynu'r Cynllun Mentora Cymheiriaid;

Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Twitter: @seneddiechyd / @seneddhealth

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

- amlinelliad o'r trefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer y cyfnod interim (rhwng diwedd y Cynllun Mentora Cymheiriaid, a dechrau'r cynllun olynol sef y Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith); ac
- arwydd o ba bryd yr ydych yn disgwyl i'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith fod ar gael.

Cyffuriau a meddyginiaethau ar bresgripsiwn

- eich barn am hyd a lled y broblem o or-bresgripsiynu cyffuriau a meddyginiaethau, a'r draul ar goffrau'r wlad sy'n gysylltiedig â gor-bresgripsiynu;
- sut y mae problem gor-bresgripsiynu yn gysylltiedig â nodau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran gofal iechyd darbodus;
- amlinelliad o'r strategaethau a'r canllawiau i fonitro cleifion sy'n cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gan gynnwys y strategaethau i ddod â'r presgripsiwn i ben ar ddiwedd cwrs o driniaeth.

Steroidau a Chyffuriau Gwella Delwedd (SIEDs)

- eich barn am hyd a lled y broblem o gamddefnyddio SIEDs (gan gynnwys defnyddio Melanotan) yng Nghymru; a'ch
- barn a yw strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru yn cymryd digon o ystyriaeth o SIEDs.

Addysg ac ysgolion

- mwy o fanylion am gynnwys y cyrsiau a gyflwynir fel rhan o'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan; ac
- amlinelliad o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb ar draws ysgolion o ran negeseuon iechyd cyhoeddus a gyflwynir fel rhan o'r rhaglen.

Niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol

- mwy o fanylion am y canllawiau sydd ar gael i glinigwyr wrth ymdrin â niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol;
- data am raddau'r niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru; a

- rhagor o wybodaeth am sut y mae'r gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai a atgyfeiriwyd oherwydd niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cael eu cynllunio a'u darparu.

Darparu canolfannau dadwenwyno preswyl

- dadansoddiad o leoliad a chapasiti canolfannau dadwenwyno preswyl yng Nghymru;
- gwybodaeth am sut y caiff y ddarpariaeth ei chynllunio ac a oes unrhyw fylchau ar hyn o bryd; ac
- amlinelliad ynghylch a oes unrhyw ganolfannau dadwenwyno preswyl yng Nghymru yn benodol ar gyfer menywod.

Meddygon Teulu

- rhagor o fanylion am y newid yr oeddech yn cyfeirio atynt sydd wedi cael eu gwneud i hyfforddiant meddygon teulu;
- sut mae canlyniad y newidiadau hyn i hyfforddiant meddygon teulu yn cael ei fesur a'i fonitro;
- tystiolaeth o'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud; a'ch
- barn am effaith staff locwm ar y gofal y mae cleifion yn ei gael.

Iechyd meddwl

- eich barn am y graddau y dylai gwasanaethau iechyd meddwl ac ASM gael eu hintegreiddio, ac i ba raddau y maent wedi'u hintegreiddio eisoes.

Labelu alcohol


- eich barn am effeithiolrwydd y term 'uned alcohol' fel cymorth i helpu pobl i ddeall faint o alcohol y maent yn ei yfed, ac a ydych yn ystyried opsiynau eraill.
- eich barn ar benderfyniad trawsbleidiol Senedd Ewrop yn ddiweddar ar labelu alcohol, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r safbwynt hwn ai peidio; ac
- a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch hyn.

Ymyriadau byr yn achos alcohol

- eich barn ynghylch a oes digon yn cael ei wneud i fonitro effeithiolrwydd y dull ymyriadau byr yn achos alcohol; ac
- a yw ymyriadau byr yn achos alcohol yn gofyn am ddull mwy strategol.

Byddai'n dda pe gallem gael y wybodaeth hon erbyn dydd Mercher 1 Gorffennaf, fel y gall eich safbwyntiau lywio adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large 'D' and 'R'.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol